# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Graffu Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adolygiad Polisi Diogelu (2026) |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg a Cadeirydd y Panel Diogelu Strategol |
| **Swyddog perthnasol:** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 4 Mehefin 2026 |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1 Pwrpas yr eitem yw cyflwyno adolygiad o Bolisi Diogelu Corfforaethol i'r Pwyllgor Craffu, er mwyn rhoi cyfle i aelodau ystyried y cynnwys a darparu sylwadau cyn mabwysiadu'r polisi.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1 Ystyried a yw'r Polisi Diogelu Corfforaethol newydd yn glir, yn gyfredol ac yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Cyngor o ran diogelu, ynghyd ag ystyried a oes unrhyw fylchau, risgiau neu faterion sydd angen sylw cyn mabwysiadu'r polisi.

2.2 Mae'r prif newidiadau sydd wedi eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad hwn wedi eu hamlygu yn yr adroddiad isod.

**3. Cefndir / Cyd-destun**

**3.1** Cynhelir adolygiad o Bolisi Diogelu'r Cyngor ar gylch dwy flynedd. Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**3.2** Rhwng Ionawr a Mawrth 2026 cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi. Sefydlwyd is-grŵp i arwain yr adolygiad, yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwyr Diogelu Plant ac Oedolion, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Pennaeth yr Adran Oedolion, Swyddog Diogelwch Cymunedol, ac Uwch Swyddog Gweithredol.

**3.3** Gwnaed nifer o newidiadau i'r Polisi Diogelu yn dilyn yr adolygiad, gan gynnwys cryfhau eglurder a defnyddioldeb y ddogfen. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar egluro'r llwybr ar gyfer codi pryderon, gan ei amlygu'n glir ar ddechrau'r ddogfen. Datblygwyd

gweithdrefnau mwy ymarferol ar gyfer adrodd a chofnodi pryderon, gan gynnwys adran newydd fanwl sy’n nodi’r wybodaeth y dylid ei chofnodi wrth weld neu glywed am fater diogelu.

**3.4** Cryfhawyd atebolrwydd a rôl arweiniol uwch swyddogion, ac amlygwyd hefyd yn gliriach rolau a chyfrifoldebau unigolion a gwahanol grwpiau o staff. Cymerwyd y cyfle hefyd i amlygu cyfrifoldebau sefydliadau a gomisiynir gan Gyngor Gwynedd.

**3.5** Eglurwyd y gofynion hyfforddiant yn amlycach, gan bwysleisio disgwyliadau hyfforddiant mandadol a rheolaidd (pob tair mlynedd) ar gyfer staff ac aelodau etholedig, ynghyd â chryfhau trefniadau monitro cydymffurfiaeth.

**3.6** Cymerwyd camau pellach i gryfhau atebolrwydd ar draws y Cyngor ym maes diogelu. Mae’r Polisi bellach yn cynnwys y gofynion isod:

- Cynnwys data (%) nifer sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant diogelu a hyfforddiant trais yn y cartref fel rhan o’r broses Herio Perfformiad ym mhob adran.
- Sefydlu diogelu fel eitem barhaol ar agenda’r Tîm Rheoli Corfforaethol.
- Gofyn i bob adran gynnwys diogelu fel eitem reolaidd ar agenda eu timau rheoli adrannol.
- Parhau â’r drefn o gyflwyno’r Adroddiad Blynyddol i’r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a’r Cyngor llawn.

**3.7** Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ar y Polisi diwygiedig gydag aelodau’r Panel Strategol Diogelu ac aelodau’r Grŵp Gweithredol Diogelu, a derbyniwyd nifer o sylwadau gwerthfawr fel rhan o’r broses.

**3.8** Bydd mabwysiadu’r Polisi newydd yn sicrhau bod gan y Cyngor weithdrefn ddiogelu gadarn yn ei lle, ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy’n wynebu risg.

## 4. Camau nesaf

**4.1** Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo’r Polisi, bydd copi er gwybodaeth yn mynd gerbron y Cyngor Llawn nesaf. Teimlir fod hyn yn gam pwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau etholedig.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 - Polisi Diogelu (Adolygiad 2026) Drafft